# Cyngor Sir Ddinbych
# Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho, a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ___y Rhyl 2026

Mae Mae Cyngor Sir Ddinbych, wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau **1(1), 2(1) to (3), 4, 25, 32, 35,36, 45, 46,46A, 47, 49, 51, 52 a 53 a 124(1) a Rhan IV o Atodlen 9** o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (Deddf 1984) fel y'i diwygiwyd, a'r holl bwerau galluogi eraill, ar ôl ymgynghori â Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ac yn unol â Rhan III, Atodlen 9 o Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

## Adran 1 – Rhagarweiniol

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar ***(darparu'r dyddiad)*** 2026 a gellir ei enwi yn Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych **Cyngor Sir Ddinbych Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho, a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ___y Rhyl 2026**.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol i ddehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol ar gyfer dehongli unrhyw Ddeddf Seneddol ac fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn Ddeddf Seneddol, at ddibenion Adran 21 o'r Ddeddf honno, ac fel pe bai'r Gorchmynion a ddirymwyd gan y Gorchymyn hwn yn Ddeddfau Seneddol a ddiddymwyd.

3. Bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at, ac nid yn dirymu, unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau a wnaed, neu sydd mewn grym fel pe baent wedi'u gwneud, dan Ddeddf 1984, neu dan unrhyw ddeddfiad arall, ac os oes gwaharddiad neu gyfyngiad wedi'i osod, amrywio neu'i ddirymu gan y Gorchymyn hwn sy'n gwrthdaro â gwaharddiad neu gyfyngiad a osodwyd gan Orchymyn blaenorol, yna bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn trechu.
4. Os yw llys, Llywodraeth Cymru neu'r Tribiwnlys Cosbau Traffig, yn datgan bod unrhyw ran o'r Gorchymyn hwn yn annilys neu'n anorfodadwy, ni fydd y datganiad hwnnw yn annilysu gweddill y Gorchymyn.

5. Amrywir Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021 (a elwir wedi hyn "y Prif Orchymyn") drwy hyn fel a ganlyn:
    a. dilëir y cynlluniau a nodir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn o'r Prif Orchymyn ac fe'u disodlir â'r cynlluniau sydd wedi'u hatodi i'r Gorchymyn hwn a'u llofnodi mewn cysylltiad ag ef, ac wedi'u rhestru yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn, a gaiff felly drwy hyn eu hychwanegu at atodlenni 1 a 2 i'r Prif Orchymyn a'u hymgorffori ynddynt.

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR SIR DDINBYCH**

**ar hyn**

**Ar y dydd o 202 )**

**yng ngŵydd:- )**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

**Llofnodwr Awdurdodedig**

| |
|---|
| Hon yw'r Atodlen 1 y cyfeirir ati yng Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif y Rhyl 2026. |

## Atodlen 1

Dilëir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol o Orchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021

**P19 a P20**

| |
|---|
| Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ____ y Rhyl 2026. |

## Atodlen 2

Ychwanegir y Cynlluniau Stryd â'r Rhifau Cynllun canlynol a'u hymgorffori yn atodlenni 1 a 2 Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) 2021

**P19a a P20a**

# Cyngor Sir Ddinbych Gorchymyn (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho, a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ___y Rhyl 2026

RHODDWYD DAN SÊL GYFFREDIN

CYNGOR SIR DDINBYCH

Ar y ___ diwrnod o ________ 2026

Llofnodwr Awdurdodedig

Dyddiedig _______________________ 2026

**Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho, a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif ___y Rhyl 2026**

el y nodir oddi mewn

Catrin Roberts,

Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol Pobl

Cyngor Sir Ddinbych

Neuadd y Sir

Ffordd Wynnstay

Rhuthun

LL15 1YN

SBH/???



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.